



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 2:

**Mynd yn Ddyfnach 2.2 Cynllunio
prosiect entrepreneuraidd**



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

CYNNWYS


Ewch yn dyfnach 2.2

Cynllunio prosiect entrepreneuriaidd	3
cam : 1 Archwilio – Beth yw'r broblem?	5
Cam 2: Cyfoethogi – Beth yw ein hopsiynau?.....	6
Cam 3: Gweithredu – Sut y mae rhoi ein syniad ar waith?.....	10
Cam 4: Gwerthuso – A ydym wedi creu rhywbeth o werth?	13



Cynllunio prosiect entrepreneuriaidd

Mae'r model Archwilio, Cyfoethogi, Gweithredu a Gwerthuso yn mynd â'r myfyrwyr trwy bob cam o brosiect 'nodweddiadol'. Ym mhob cam, mae cyfleoedd i'r myfyrwyr amlygu cymwyseddau.



Ffigur 2.2.1 Model Archwilio, Cyfoethogi, Gweithredu a Gwerthuso ar gyfer cynllunio dysgu entrepreneuriaidd

Cam 1: Archwilio – Beth yw'r broblem?

Yn y byd entrepreneuriaidd go iawn, mae'r rhan fwyaf o brosiectau'n dechrau trwy geisio creu cysyniad o'r broblem. Yn aml iawn, rydym yn cymryd yn ganiataol bod pawb yn deall yr hyn y mae'r gair 'problem' yn ei olygu. Fel arfer, pan fydd rhywun yn gweiddi, 'Beth yw dy broblem di?', nid yw'n waedd gadarnhaol. Ond yn y byd entrepreneuriaidd, mae problemau'n cael eu croesawu gan eu bod yn cynhyrchu busnes posibl.

Weithiau, yr her yw nodi beth yw'r brif broblem, gan ei bod yn bosibl bod nifer o broblemau yn gwau trwy ei gilydd.

Mae'r cam hwn hefyd yn ymwneud ag archwilio datrysiadau posibl. Weithiau mae'n bosibl troi'r broblem drosodd i gael datrysiad. Er enghraifft, cyfeiria Rod Judkins at gwmni sgwba-blymio sydd â'i ddyfodol yn y fantol oherwydd bod siarcod wedi heidio i'r ardal. Mae'n awgrymu y dylai'r perchennogion agor ysgol plymio eithafol, yr un gyntaf o'i bath yn y byd.¹



Yn y cam archwilio, rôl yr athro/athrawes yw ennyn diddordeb y myfyrwyr. Fel addysgwyr, mae ein greddf yn dweud wrthym fod myfyrwyr yn siŵr o wrando os oes gennym rywbeth pwysig i'w rannu. Yn anffodus, mae'r reddf hon yn anghywir. Yn y byd go iawn, nid yw pobl yn talu sylw i wybodaeth, hyd yn oed os yw'n wybodaeth a allai achub eu bywydau. Er enghraifft, y tro nesaf y byddwch yn hedfan, edrychwch o'ch cwmpas i weld faint o'r teithwyr sy'n gwrandao ar y cyhoeddiadau diogelwch cyn hedfan. Dyma pam y mae llawer o gwmnïau hedfan bellach yn defnyddio ffyrdd creadigol, yn amrywio o gartwnau i gomedi stand-yp, i gyfleu'r wybodaeth hanfodol hon. Mae'r cyhoeddiadau newydd hyn yn denu mwy o sylw oherwydd eu bod yn ysgogi emosiynau cadarnhaol pobl. Dyma un o egwyddorion sylfaenol y broses o ddal sylw pobl.²

O safbwynt addysgwyr, mae hyn yn golygu bod angen i ni ddefnyddio'n dychymyg a meddwl am ffyrdd gwahanol o ddal sylw'r myfyrwyr yn ystod munudau cyntaf y wers. Mae athrawon medrus yn defnyddio llawer o 'fachau' gwahanol i ddal sylw myfyrwyr o'r dechrau un. Gweler Blwch 2.2.1 isod.

¹ Judkins, R. (2015) *The Art of Creative Thinking*, Hodder & Stoughton.

² Sharot, T. (2018) *The Influential Mind*, Abacus.



1. Storiâu newyddion lleol
2. Cwestiwn neu bwnc amserol
3. Dilema moesegol
4. Sylw wrth fynd heibio yn ymwneud ag amgylchedd yr ysgol
5. Pwnc llosg yn y gymuned
6. Arteffact, er enghraifft tegan wedi torri – cafodd Charles Lazarus, sylfaenydd Toys R Us, ei ysbrydoli gan ddol wedi torri
7. Her, e.e. 'Pe baet ti'n gallu newid un peth am yr ystafell ddosbarth hon beth fyddai hwnnw, a pham?'
8. Darn o lythyr mewn papur newydd yn cwyno am wasanaeth y mae angen ei wella
9. Pos/pysl
10. Gwrthrych (naturiol neu wedi'i gynhyrchu)
11. Dilledyn
12. Offer tŷ
13. Hylif
14. Clip fideo neu sain
15. Sŵn, darn o gerddoriaeth neu jingl
16. Slogan hysbysebu
17. Paentiadau neu waith celf arall
18. Deunydd wedi'i ailgylchu
19. Deunydd wedi'i uwchgylchu
20. Stori fer neu gerdd
21. Pos neu jôc
22. Penawdau papur newydd
23. Cwestiwn penagored, e.e. 'Tybed sut mae hwn yn gweithio?'
24. Animeiddiad neu gartŵn
25. Senario - 'Beth fyddet ti'n ei wneud pe byddet ti yn fy lle i?'

Blwch 2.2.1 Bachau posibl ar gyfer ennyn diddordeb myfyrwyr mewn cyfleoedd dysgu entrepreneuraidd

Mae angen i chi hefyd ddefnyddio diddordebau'r myfyrwyr, a'u cysylltu os oes modd â'r cynnyrch neu'r gwasanaeth y mae angen ei wella. Mae llawer o syniadau



newydd yn deillio o fân newidiadau i rai sy'n bodoli'n barod. Felly, mae angen annog myfyrwyr i edrych o'r newydd ar yr hyn sydd o'u cwmpas.

Beth bynnag yw'r bachyn, rhaid iddo fod yn sbardun i ddatrys problemau mewn ffordd entrepreneuriaidd. Ar ôl i chi 'fachu'r myfyrwyr', gallech eu hannog i lunio datganiad yn egluro beth yw'r broblem, h.y. 'Y broblem yr ydym yn ceisio ei datrys yw ...' neu 'Y mater yr ydym yn ei archwilio yw ...'. Trwy gynllunio'n ofalus dylech allu cysylltu hyn â nodau, amcanion neu ddeilliannau dysgu bwriadedig. Mewn geiriau eraill, y broblem yw'r cyd-destun a ddylai alluogi myfyrwyr i amlygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau (cymwyseddau entrepreneuriaidd).

Cam 2: Cyfoethogi – Beth yw ein hopsiynau?


Yn yr ail gam bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau ac yn trafod sut y gallent ychwanegu gwerth.

Mae'r cam cyfoethogi yn ymwneud ag annog myfyrwyr i sylwi ar gyfleoedd. Bathodd Edward de Bono (1970) y term 'meddwl ochrol' i ddisgrifio'r broses o archwilio ffyrdd o edrych ar bethau (Ffigur 2.2.2). Yn hytrach na chwilio am yr ateb gorau posibl, sy'n debyg i feddwl fertigol, awgrymodd de Bono y dylid archwilio cynifer o ddulliau gwahanol ag sy'n bosibl. Yn ystod y broses naturiol o chwilio am ddewisiadau amgen, rydym yn oedi wrth y dull mwyaf addawol. Mae meddwl ochrol yn golygu bod pob dull addawol yn cael ei gydnabod ond bod y chwilio'n parhau, ac mae syniadau a allai ymddangos yn afresymol ar yr olwg gyntaf yn cael eu cynnwys.³ Mae de Bono yn ceisio llacio'r broses o feddwl er mwyn ei gwneud yn fwy hyblyg a llyfn. Hyd yn oed os yw'r chwilio wedi bod yn wastraff amser, dadl de Bono yw bod y broses yn datblygu'r arfer o chwilio am ddewisiadau amgen yn hytrach na derbyn y dull mwyaf amlwg yn ddi-gwestiwn. Er hyn, mae'n derbyn ei bod yn gwneud synnwyr o safbwynt ymarferol i bennu swm penodol ar gyfer nifer y chwiliadau (dim llai na 3 dyweder). Mae syniad Anna Craft o 'feddylfryd

³ De Bono, E. (1970) *Lateral Thinking*, Penguin.



posibiliadau' hefyd yn berthnasol yma – dychmygu bydoedd gwahanol trwy ddefnyddio senarios 'Beth petai ...?'.



Ffigur 2.2.2 Meddwl fertigol ac ochrol (ar ôl De Bono, 1970).

Y gwir amdani yw nad oes unrhyw beth yn berffaith yn y byd hwn, ac mae hynny'n arwain at gyfleoedd i entrepreneuriaid. Mae modd gwella popeth. Fel yr awgryma Rod Judkins, 'Os nad oes angen gwella rhywbeth, gwellwch ef'. Gallai'r gwelliant ymwneud â sut mae pethau'n cael eu gwneud, h.y. y dull, yn hytrach na'r cynnwys ei hun.⁴

Un o'r dulliau mwyaf defnyddiol o helpu myfyrwyr a'u galluogi i ganolbwyntio ar agweddau ar rywbeth y mae'n bosibl bod angen ei wella yw techneg SCAMPER Bob Eberle. Mae SCAMPER yn seiliedig ar y syniad bod pethau sy'n newydd, mewn gwirionedd, yn addasiadau o bethau sy'n bodoli'n barod, o ganlyniad i gymhwyso un neu ragor o'r canlynol:

[(S) cyfnewid (*substitute*), (C) cyfuno (*combine*), (A) addasu (*adapt*), (M) cyfaddasu (*modify*), (P) rhoi at ddefnydd arall (*put to another use*), (E) dileu (*eliminate*), (R) ad-drefnu (*reverse*)].

Ystyriwch 'cyfuno' er enghraifft. Mae meddylfryd entrepreneuriaid yn golygu ein bod yn ffurfio cyfuniadau newydd. Yn ôl Steve Jobs nid yw creadigrwydd 'yn ddim mwy na mater o gysylltu pethau'.⁵ Pan lansiwyd yr iPhone newydd yn 2007 roedd blogwyr yn rhyfeddu at ei nodweddion gwyrthiol ac yn cyfeirio ato fel y '*Jesus phone*'. Ond mewn gwirionedd, roedd y rhan fwyaf o'r cydrannau'n bodoli'n barod ar ddechrau'r 1990au – roedd yr iPhone yn cyfuno'r rhain i greu un uned fforddiadwy (i rai).

Gellir dysgu'r broses hon o wneud cysylltiadau i'r myfyrwyr. Dychmygwch eich bod yn gweithio yn y busnes cyhoeddi llyfrau a bod arnoch eisiau edrych am farchnadoedd newydd. Efallai y byddech yn dechrau trwy restru eich newidynnau a rhoi'r cydrannau allweddol o dan bob un (Blwch 2.2.2):

⁴ Judkins, R. (2015) *The Art of Creative Thinking*, Sceptre.

⁵ Dyfynnwyd gan Brandt, A. ac Eagleman, D. (2017) *The Runaway Species*, Canongate, t.37.



Cynnyrch	Marchnadoedd	Technoleg	Swyddogaethau	
Gwasanaethau				
Cyfeirlyfrau	Llyfrgelloedd	Argraffu	Gwybodaeth	
Clybiau llyfrau				
CD_ROMs	Diwydiant	Modiwlaidd	Hyfforddiant	Gwefan
Gwerslyfrau	Prifysgolion	Sain	Addysg	
Gweithdai				
E-lyfrau	Gwerthiant ar-lein	Rhyngrwyd	Adnoddau	

Blwch 2.2.2 Mynegai geiriau allweddol

Trwy lunio mynegai geiriau allweddol, mae'n bosibl archwilio cyfuniadau newydd, e.e. cyfeirlyfrau—prifysgolion—mewnrwyd—gwybodaeth.

Mae rhywbeth tebyg i SCAMPER yn cael ei argymhell gan Brandt ac Eagleman, y naill yn niwrowyddonydd a'r llall yn gyfansoddwr o fri. Maent yn awgrymu bod modd olrhain popeth newydd yn ôl i dri pheth – **cyfuno**, **plygu** neu **dorri**. Mae'n debyg mai dyma sut mae'r ymennydd dynol yn gweithio.

Yn ystod y cam cyfoethogi, mae angen rhoi amser i'r myfyrwyr drafod eu syniadau. Nid yw fflach o ysbrydoliaeth neu foment Eureka! yn ddigwyddiad cyffredin. Yr hyn a welir yn aml yw bod syniadau'n datblygu dros gyfnod maith, mewn modd igamogam, wrth i grëwyr llwyddiannus drafod eu gwaith drosodd a throsodd. Maent yn ymgodymu â'u syniadau – yn eu datgymalu, eu cyfuno, ychwanegu atynt, tynnu rhywbeth ymaith, eu troi ben i waered a'u hysgwyd o gwmpas.⁶

Mae'n cymryd amser i ddatblygu syniad da. Yn ôl un adolygiad hanesyddol o 14 o'r dyfeisiau mwyaf arwyddocaol mewn cymdeithas, mae yna 39 o flynyddoedd ar gyfartaledd rhwng y syniad gwreiddiol a'r adeg y mae dyfais yn cael ei mabwysiadu gan y cyhoedd. Y ddyfais sydd â'r rhychwant oes mwyaf yw'r car modur – 70 mlynedd – a'r dyfeisiau sydd â'r cyfnod byrraf yw batris lithiwm, peiriannau arian parod a ffonau symudol (ond mae rhychwant oes y rhain hefyd yn

⁶ Sawyer, K. (2013) *Zig Zag: The Surprising Path to Greater Creativity*, Jossey Bass.



ugain mlynedd neu fwy).⁷ Er bod syniadau'r myfyrwyr yn debygol o fod yn rhai mwy cyffredin, wrth gynllunio ar gyfer trafodaethau o'r fath mae'n bwysig bod athrawon yn rhoi amser a lle i fyfyrwyr rannu syniadau, gwneud newidiadau a gwneud yr ymchwil angenrheidiol.

Cam 3: Gweithredu – Sut y mae rhoi ein syniad ar waith?

Yn y cam gweithredu mae'r myfyrwyr yn dewis pa rai o'u syniadau sydd â'r potensial mwyaf neu orau yn eu barn hwy, ac yna'n datblygu hyn i'r ffurf orau trwy sefydlu gweledigaeth a chynllun clir. Gellir gwahodd y myfyrwyr i lunio bwrdd cynllunio stori i ddangos dilyniant eu syniad, o'r adeg y mae'n cael ei greu i'r adeg y mae'n cael ei fabwysiadu ar raddfa eang, ynghyd â'r camau sy'n digwydd ar y ffordd. Wrth wneud hyn, gall y myfyrwyr drafod heriau, costau a chyfyngiadau posibl, yn ogystal â'r deilliannau bwriadedig. Yn y byd entrepreneuriaidd, nid yw'n anghyffredin i entrepreneuriaid roi syniad cychwynnol o'r neilltu oherwydd nad yw'n gweithio am ryw reswm; efallai nad oes modd gwneud iddo weithio ar raddfa wahanol, neu efallai fod yr adborth ar ryw elfen neu'i gilydd yn rhy negyddol.

Dylid cadw syniadau sydd heb eu defnyddio, oherwydd gallent fod yn werthfawr yn nes ymlaen fel sbardun i brosiectau eraill. Mae'n werth atgoffa'r myfyrwyr o'r syniadau niferus a gafodd eu gwrthod yn wreiddiol ond a drodd yn wasanaethau neu'n gynnyrch llwyddiannus iawn yn ddiweddarach. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer hunan-dyb y myfyrwyr nad yw eu syniadau'n cael eu cefnogi yn y cam hwn.

Ar ôl i'r syniadau gael eu trafod mae angen dod i gytundeb ynglŷn â'r rhai y dylid mynd ar eu holau oherwydd eu gwerth posibl. Mae hefyd yn bwysig bod myfyrwyr yn ystyried pam y mae syniadau'n lledaenu. Gall dylanwad cymdeithasol neu drosglwyddo gwybodaeth ar dafod leferydd olygu bod syniadau'n lledaenu'n gyflym iawn. Mae meddygon yn fwy tebygol o roi cyffur newydd ar bresgripsiwn


⁷ Hanna, R. et al. (2015) *UKERC Technology and Policy Assessment Innovation timelines from invention to maturity*, UKERC.



os ydynt yn gwybod bod meddygon eraill wedi gwneud hynny. Gall adolygiad pum seren ar amazon.com arwain at werthu tua ugain llyfr yn fwy nag adolygiad un seren. Mae pobl yn fwy tebygol o roi'r gorau i ysmegu neu golli pwysau os yw eu ffrindiau'n gwneud hynny.

Mae Berger (2014) yn nodi nad oes rhaid i syniad fod yn ddiddorol neu'n newydd er mwyn lledaenu (yn groes i'r disgwyl). Mae'n gwahaniaethu rhwng trosglwyddo gwybodaeth ar dafod leferydd ar unwaith a throsglwyddo gwybodaeth ar dafod leferydd dros gyfnod (cynnyrch a gwasanaethau y mae pobl yn dal i siarad amdanynt am wythnosau a misoedd). Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnyrch neu'r syniadau, y peth pwysicaf yw bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo ar dafod leferydd dros gyfnod. Er enghraifft, mae angen i ymgyrch atal bwlio barhau nes bydd bwlio wedi'i ddileu.


Defnyddir Dull y Pedwar Categori (Ffigur 2.2.3) i ddsbarthu syniadau yn ôl eu natur haniaethol gymharol – y dewis mwyaf rhesymegol, y dewis mwyaf atyniadol, y dewis sy'n cael ei hoffi a'r dewis sy'n dipyn o fenter.



Ffigur 2.2.3 Dull y Pedwar Categori

Ffynhonnell: <https://www.interaction-design.org/literature/article/how-to-select-the-best-idea-by-the-end-of-an-ideation-session>

Defnyddir y dull 'Nawr-Sut-Waw i farnu pa mor hyfyw yw syniad (Ffigur 2.2.4). Mae'r myfyrwyr yn gosod sticeri bach lliw ar y grid, pob un yn cynrychioli un o'r categorïau, i gynrychioli lle maent yn credu y dylid gosod syniadau ar y raddfa.



Ffigur 2.2.4 Y dull 'Nawr-Sut-Waw

Ffynhonnell: <https://www.interaction-design.org/literature/article/how-to-select-the-best-idea-by-the-end-of-an-ideation-session>



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.2.1: Meddylfryd dylunio

Ymwelwch â gwefan [Interaction Design Foundation](#) a darllenwch eu hawgrymiadau meddylfryd dylunio ynglŷn â sut i ddewis y syniad gorau erbyn diwedd sesiwn syniadaeth.

Gallwch hefyd lawrlwytho canllawiau manylach, ynghyd â thempledi am ddim, er enghraifft Dull y Pedwar Categori a'r matrices 'Nawr-Sut-Waw.

Pryd yr ydych yn meddwl y gallai'r canllawiau hyn fod yn ddefnyddiol i chi yn eich gwaith cynllunio?

Gwerthuso – A ydym wedi creu rhywbeth o werth?

Mae gwerthuso yn ymwneud â dod i gasgliad ynglŷn â **gwerth** rhywbeth. Dylai gwerthuso ddigwydd trwy gydol y profiad dysgu entrepreneuraid, ac ni ddylai gael ei weld fel cam ar wahân sydd wedi'i gyfyngu i ddiwedd y broses. Mae'n ymwneud yn bennaf â chael y myfyrwyr i feddwl sut y gallai eu syniad wneud gwahaniaeth i'r defnyddwyr terfynol a pha dystiolaeth a allai gefnogi'r ffordd hon o feddwl. Dylid annog y myfyrwyr i ymchwilio ac ailystyried eu syniad, gan ddibynnu ar yr hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddatgelu. Dylid eu dysgu sut i gasglu a dehongli tystiolaeth, er enghraifft trwy arolygon, holiaduron, cyfweliadau ac arsylwadau a thrwy ddefnyddio technolegau.

Gellir llunio ffurflenni meini prawf syml ac annog y myfyrwyr i gyflwyno'u syniadau i banel a'u hamddiffyn. Gall y myfyrwyr ystyried pwy allai fod mewn sefyllfa dda i gynnig adborth ac ar ba ffurf y dylai fod, e.e. arolwg byr neu gyfweliad, ac a ddylid sefydlu grwpiau 'rheolydd'. Yna dylai'r myfyrwyr fynd yn ôl at eu cynlluniau i wneud unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud yn dilyn yr adborth.



Mae'n bwysig bod y myfyrwyr yn deall bod gwerthuso yn aml yn fusnes cymharol ac yn fater o farn oddrychol bersonol. Er y gellir dysgu'r myfyrwyr sut i farnu pa mor deilwng yw rhywbeth, gan ddefnyddio rhestrau gwirio syml sy'n dangos meini prawf gwerthuso gwrthrychol, mae emosiynau'n chwarae rhan bwysig wrth bennu gwerth rhywbeth.

Gall y myfyrwyr ddyfeisio neu ddefnyddio eu rhestrau gwirio eu hunain i werthuso eu syniadau.

Gellir eu cyflwyno i feini prawf llwyddiant a all fod yn oddrychol ac yn wrthrychol.



Dychmygwch eich bod yn gwahodd y myfyrwyr i ddyfeisio cadair newydd fel rhan o'r gwaith o adnewyddu llyfrgell yr ysgol. Gallai'r meini prawf gwrthrychol gynnwys: 'A oes ganddi bedair coes?' neu 'A yw o fewn y gyllideb?', ond mae rhai materion esthetig, sy'n fater o farn bersonol, hefyd yn bwysig (e.e. steil). Wrth wneud penderfyniad terfynol ynglŷn â pha gadair i'w dewis, mae'n anorfod bod angen ystyried cyfuniad o feini prawf gwrthrychol a theimladau goddrychol.

Mae Tabl 2.2.1 yn cynnwys enghreifftiau o awgrymiadau ym mhob cam o'r model. Gellid arddangos y rhai a ddewisir ar wal y dosbarth i atgoffa'r myfyrwyr yn ystod y wers.

[Tabl 2.2.1](#)



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
Archwilio Diffinio'r broblem neu'r mater dan sylw	<p>Beth yw'r broblem neu'r mater dan sylw?</p> <p>... â'n ffordd o feddwl</p> <ul style="list-style-type: none"> Beth yn union yw'r broblem neu'r mater dan sylw? Pam nad yw'r broblem wedi cael ei datrys cyn hyn? Beth a wyddom am hyn? Beth yw'r ffeithiau a'r ffigurau a wyddom am X? Pa gynnyrch/gwasanaetha u tebyg (cystadleuaeth) sy'n bodoli? Beth y mae eraill wedi'i wneud o'r blaen? Beth y mae ymchwil yn ei ddweud am y cynnyrch/gwasanaeth hwn? <p>... â'n teimladau</p> <ul style="list-style-type: none"> Os nad ydym yn datrys y broblem, beth yw'r ots? Ar bwy y bydd hyn yn effeithio? Sut y mae hyn yn gwneud iddynt/i ni deimlo? A yw'n teimladau'n newid os ydym yn ...? Sut y gallai x fod yn teimlo ynglŷn â hyn? Ar bwy y mae'r broblem yn effeithio fwyaf/leiaf? 	<ul style="list-style-type: none"> <u>Techneg Pwy? Pryd? Beth? Ble? Pam?</u> Gridiau KWL (yr hyn yr ydym yn ei wybod yn barod, yr hyn yr ydym eisiau ei ddysgu a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu) Datganiadau o'r broblem Mapiau meddwl Arferion meddwl, e.e. Gweld, Meddwl, Tybio Technegau ailfynegi, e.e. gwrthod y gair 'ond...' a mynnu 'ydy, a...' am gymaint o amser ag sy'n bosibl Cyflwyniad i'r dosbarth cyfan, gwaith grŵp, trafodaethau mewn parau 	<p>3.3 Addysgu trwy gyd-destunau yn y byd go iawn</p> <p>3.4 Annog hunan-ymwybyddiaeth a hunanhyder i gefnogi dysgu</p>



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
	<p>... â'n synhwyrâu</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth y gallwch ei weld, ei glywed, ei deimlo, ei gyffwrdd? • Ydych chi erioed wedi sylwi? • Sut y mae hyn yn gweithio? • A allwch roi'r pethau hyn gyda'i gilydd? <p>... â'n dychymyg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dychmygwch pe baem yn gwneud hyn? • Beth fyddai'r ateb(ion) perffaith? 		



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
Cyfoethogi	<p>Beth yw ein hopsiynau?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut y gallwn wella hyn? • Beth y byddech yn ei newid? Pam? • Beth sydd ar goll? • Beth pe baem yn troi hyn â'i ben i waered neu'n ei wrthdroi? • Pwy allai elwa/fod ar ei gollod o ganlyniad i hyn? • Pwy allai fod â diddordeb yn ein syniad? Pam? • Beth pe baem yn edrych ar hyn mewn ffordd arall? • Beth y gallwn ei ychwanegu, ei newid neu ei addasu? • Os byddwn yn newid x (lliw, maint, siâp, defnyddwyr bwriadedig) beth a allai ddigwydd? 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith grŵp a thrafodaethau mewn paru • Arddangos rheolau trafodaethau grŵp a phennu rolau • Neilltuo 'wal weithio' i arddangos syniadau sy'n dod i'r amlwg • Defnyddio nodiadau cod lliw (coch ar gyfer gwrthod, melyn ar gyfer posibl a gwyrdd ar gyfer 'parod i fynd') i gofnodi syniadau'r myfyrwyr • Techneg SCAMPER • Cyfuno, plygu neu dorri • Clystyru neu wneud cysylltiadau rhwng gwahanol syniadau a awgrymwyd • Arddangos techneg newyddiadurwyr: Cwestiynau Pwy? Pryd? Beth? Ble? Pam? a Sut? • Cwestiynau yn ymwneud â moeseg a chynaliadwyedd, e.e. 'Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar bobl eraill ac ar yr amgylchedd?' 'Ai dyma'r peth iawn i'w wneud?', 'A allai hyn beri niwed i rywun?' 'Sut y gallwn ddiogelu hyn?' • Barn pobl eraill ac ystyried yr holl ffactorau (technegau de Bono) 	3.2 Creu gwerth i eraill



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
		<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwilio ar-lein i weld a oes syniadau tebyg wedi cael eu crybwyll yn barod a beth y gellid ei ddysgu o hyn 	



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
Gweithred u	<p>Sut yr ydym yn rhoi ein syniad ar waith?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw ein prif nodau? • Beth yw ein cynllun i gyflawni'r rhain? • Beth y mae'n rhaid i ni ei wneud yn gyntaf? yn ail, ac ati? (blaenoriaethau) • Beth yw ein hamserlen? • Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le? • Beth yw ein cynlluniau wrth gefn? • Pwy fydd yn gwneud beth? (rolau a chyfrifoldebau i bob aelod o'r grŵp) • Erbyn pryd? • Pa adnoddau y bydd arnom eu hangen? • Faint allai'r rhain gostio? • Sut y gallwn aros ar y llwybr? • Beth yw ein rheolau sylfaenol ar gyfer cydweithio'n dda? • Sut y gallwn sicrhau yn ystod pob cam o'n syniad fod pawb yn tynnu ei bwysau? (trefniadau sicrhau ansawdd) • Beth y mae angen i ni feddwl amdano wrth gyflwyno a chyfathrebu ein syniad? Ar ba ffurf y dylai hyn fod? Adroddiad? Cyflwyniad 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith grŵp a thrafodaethau mewn paru • Arddangos rheolau trafodaethau grŵp a phennu rolau • Byrddau storïau 	<p>2.1 Gosod nodau entrepreneuraid d sy'n foesebol ac yn gynaliadwy</p> <p>3.5 Hybu gweithio mewn ffordd gynhyrchiol gyda phobl eraill</p>



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
	PowerPoint? Ffeil sain? Ap?		



Cam	Awgrymiadau i athrawon	Strategaethau posibl	Cysylltiadau â chymwyseddau eraill
Gwerthuso	<p>A ydym wedi creu rhywbeth o werth?</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'r broblem yn werth ei datrys neu a yw'n werth archwilio'r mater ymhellach? • Pa un yw'r syniad gorau i'w ddatblygu? Sut mae penderfynu? • A ydym wedi cyflawni ein nodau? • Pa werth (sgôr, gradd) y byddem yn ei roi (a) i'n gwaith tîm (b) i'n syniad? • Sut y gallwn gael adborth? Gan bwy? • Beth fydd yn digwydd os na fydd hyn yn gweithio? • Faint y mae hyn wedi'i gostio i ni (amser, arian, ymdrech)? • A oedd yn werth yr amser a'r ymdrech? • A oedd pawb wedi gwneud cyfran deg o'r gwaith? • Beth yr ydym wedi'i ddysgu trwy hyn? • Beth y byddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Pam? • A ydym wedi ychwanegu gwerth? • Sut? • Sut y gwyddom? 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (dadansoddiad SWOT) • Techneg PMD (Plws, Minws, Diddorol) • Dwy Seren a Dymuniad (dau gryfder a dymuniad ar gyfer y tro nesaf – i fyfyrwyr iau) • Panel mewnlol neu allanol o feirniaid • Rhestrau gwirio a chyfarwyddiadau â meini prawf • Adborth gan ddarpar gwsmeriaid/defnyddwyr • Arolygon a holiaduron • Dull y Pedwar Categori • Strategaeth 'Nawr-Sut-Waw • Storiâu am 'fethiannau campus' ac enghreifftiau o bobl y gwrthodwyd eu syniadau, e.e. JK Rowling 	<p>4.2 Rhannu adborth</p> <p>5.1 Gwerthuso effaith</p>

